**CYNGOR CYMUNED LLANWENOG COMMUNITY COUNCIL**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned ar nos Fawrth 8fed o Fai am 7.30yh yn Neuadd Bentref Drefach.

**<u>AGENDA'R CADEIRYDD / CHAIRMAN'S AGENDA</u>**

**Croeso'r Cadeirydd / Chairman's Welcome**

**Materion Personol / Personal Matters**

**Ymddiheuriadau / Apologise**

1. **Datgelu Buddiannau Personol / Declare Personal Interests**
2. **Cadarnhau'r Cofnodion / Agree Minutes**
3. **Materion yn Codi / Matters Arising**
    - a. Taith Dros Fywyd / Walk for Life
    - b. Comisiynydd yr Heddlu / Police Commissionner
    - c. Hen faes parcio Tafarn y Cledlyn former car park
    - ch. Placiau'r gofgolofn / War Memorial Plaques
    - d. Pont Cwrtnewydd Bridge
    - dd. U5310 which leads to Cwmbach, Trafle, Bryngwyn
4. **Gohebiaeth / Correspondence**
    - a. Trawsnewid ein gwasanaeth iechyd / Our big NHS change
    - b. Aelodaeth Un Llais Cymru / One Voice Wales Membership
5. **Ceisiadau am arian / Request for money**
    - a. Bobath
    - b. Data Protection Fees
6. **Cynllunio / Planning**
    - a. A180326 - 3 Tan y Fron, Llanwenog, Lampeter – New design
7. **Unrhyw Fater Arall / Any Other Business**
    - a. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf / Date and location of next meeting

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol / Annual General Meeting 8/5/2018**

a. Ethol Cadeirydd am 2018-2019

b. Ethol Is-Gadeirydd am 2018 – 2019

c. Archwiliad 2018 Audit

- Adopt Financial Regulations
- Adopt Standing Orders
- Adopt 2018 Risk Assessment
- Appoint Internal Auditor
- Adopt End of Year Accounts
- Adopt Assets

# CYNGOR CYMUNED LLANWENOG COMMUNITY COUNCIL

Neuadd y Pentref, Drefach am 7.30yh 3ydd o Ebrill 2018 / 3rd April 2018

**Yn bresennol / Present**: Cyng Alwena Williams, Cyng Hazel Thomas, Cyng Euros Davies, Cyng Brian Thomas, Cyng Geraint Davies, Cyng Daniel Evans, Cyng Sion Jenkins, Cyng Bill Green, Cyng Gwilym Jenkins

**Ymddiheiriadau/ Apologise**: Cyng Eluned Jones

**Materion Personol/Personal Matters:**

- *Llongyfarchiadau i ddisgyblion Ysgol Dyffryn Cledlyn ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Pob lwc yn Llanelwedd. Congratulations to the pupils of Ysgol Dyffryn Cledlyn on their success at Eisteddfod yr Urdd. Good Luck in Builth.*
- *Llongyfarchiadau i Elin Haf Jones ar gael ei dewis yn Frenhines y CFFI.* Congratulations to Elin Haf Jones on being chosen to be the Queen of the YFC.
- *Dymunwn wellhad buan i dad yng nghyfraith y Cyng Helen Howells, Johnny Howells wedi damwain yn ddiweddar.* Our best wishes for a speedy recovery were extended to Cllr Helen Howells father in Law, Johnny Howells following an accident recently.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Datgelu Buddianau Personol/Declare Personal Interests**<br>Nid oedd unrhyw fuddiant personol. *There were no personal interests declared.* | |
| 2. | **Cadarnhau'r Cofnodion / Agree Minutes**<br>Cafwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth yn gywir gan y Cyng. Bill Green ac fe'i eiliwyd gan y Cyng Gwilym Jenkins. *The March minutes were proposed as a true record by Cllr Bill Green and seconded by Cllr Gwilym Jenkins.* | |

| | | |
|---|---|---|
| 3.<br>a. | **<u>Materion yn Codi – Matters Arising</u>**<br>Gwobrau Un Llais Cymru Awards – Cafwyd adroddiad gan y Cyng Hazel Thomas a'r Cyng Alwena Williams o'r digwyddiad. Cafodd Cyngor Cymuned Llanwenog Ganmoliaeth Uchel yn y categori 'Ymgysylltu a'r Cyhoedd'. Penderfynwyd tynnu llun a'i roi yn Clonc a'r Cambrian News gyda adroddiad. Penderfynwyd hefyd rhoi copi o'r tystysgrif yn y ciosgs, Neuadd, capeli ayyb. *A report was received from Cllr Hazel Thomas and Cllr Alwena Williams of the event. Llanwenog CC were Highly Commended in the 'Best Community Engagement' category. It was decided to take a photograph and put it in Clonc and the Cambrian News with a report. It was also decided to put a copy of the certificates in the kiosks, hall, chapels, etc.* | Clerc |
| b. | Taith Dros Fywyd / Walk for Life – Aethpwyd trwy'r trefniadau. Cyng Alwena Williams i ofyn am drefniadau parcio yn y Felin. Clerc a'r Cyng Sion Jenkins i greu taflen hanes y llwybr. Pawb i ddod a naill ai Welsh Cakes neu Bara Brith. Cyng Sion Jenkins i ddod a llaeth. Clerc i ddod a te, coffi, siwgr, squash. Clerc a'r Cyng Geraint Davies i gerdded llwybr yr Aber. Cyng Alwena Williams i ddod a Urn a siarad gyda Gareth Evans am y Mule. Cyng Daniel Evans a Cyng Bill Green i fynd a cheir, un tu blaen a'r llall tu ol. *We went through the arrangements and preparation works. Cllr Alwena Williams to ask for parking arrangement at y Felin, get an Urn, and ask Gareth Evans for the Mile. Clerk and Cllr Sion Jenkins to create the information sheet, Sion to bring milk,Clerk to bring tea, coffee, sugar, squash. Cllr Daniel Evans and Cllr Bill Green to take cars, one in front and one in the back.* | PAWB |
| c. | Templed Iaith / Language Template – Pasiwyd bod y templed yn gywir a fe'i fabwysiadwyd. Mae angen ychwanegi darn sydd gan CC Llanwenog ato. *The template was passed and adopted. Need to add some text from the Llanwenog CC policy to it.* | Clerc |
| ch. | Hen faes parcio Tafarn y Cledlyn Former Car Park – Derbyniwyd ebost wrth Gordon Lonsdale yn holi a fyddai modd clyrio, rhoi arwyneb gwell ar y maes parcio a'i ymestyn. Penderfynwyd gofyn y cwestiwn i'r Cyngor Sir. *An email was received from Gordon Lonsdale asking whether it would be possible, to clear, re-surface and extend the car park. It was decided to ask the County Council.* | Clerc |
| d. | Placiau'r Gofgolofn / War Memorial plaques – Nid oedd y placiau wedi cael eu gosod yn gywir, ac mae marciau arnynt nad oedd arnynt o'r blaen. Maent wedi cael eu tynnu lawr ac yn mynd i gael eu ail osod yn y modd cywir a diogel. *The plaques had not been placed correctly, and they have been* | |

| | | |
|---|---|---|
| dd. | *marked. They have now been removed and will be replaced correctly and safely.*<br><br>Noson Comisiynydd yr Heddlu / Police Commissioner Evening – Penderfynwyd danfon gwahoddiad i bob mudiad yn y Plwyf a darparu te a bisgedi ar y noson. *It was decided to send an invitation to all organisations in the Parish and to provide tea and biscuits.* | PAWB |

| | | |
|---|---|---|
| **4.**<br>a. | **Gohebiaeth / Correspondence**<br>Cwn yn achosi problemau / Problem Dogs. Y farn oedd bod rhoi chip yn y cwn yn ddigonol. *The consensus was that putting a chip in a dog should be sufficient.* | |
| b. | Trawsnewid ein gwasanaeth iechyd / Our big NHS Change. Nodwyd / *Noted*<br><br>Sefydliad Prydeinig y Galon/ British Heart Foundation. Cytunwyd ei bod hi'n iawn iddynt gysylltu gyda'r CC yn y dyfodol. *It was agreed that it would be fine for them to contact the CC in the future.* | |
| c. | Noah's Ark. Cytunwyd ei bod hi'n iawn iddynt gysylltu gyda'r CC yn y dyfodol. *It was agreed that it would be fine for them to contact the CC in the future.* | |
| ch. | Gwneud ceisiadau grant effeithiol / Making effective grant funding applications. Nodwyd / *Noted* | |
| d. | Bwletin Newyddion Un Llais Cymru / One Voice Wales News Bulletin. Nodwyd / *Noted* | |
| dd. | Tai i Bawb / Housing for All. Ddim yn berthnasol / *Not applicable.* | |

| | | |
|---|---|---|
| **5.**<br>a. | **Cynllunio – Planning**<br>A180271 – 3 Highmead Cottages, Rhuddlan – Creu mynedfa / Creation of an entrance. Dim gwrthwynebiad / *No objection.* | Clerc |
| **6.**<br>a.<br><br><br><br><br>b.<br><br><br><br><br><br><br><br>c.<br><br><br><br>ch.<br><br><br><br><br><br><br>d.<br><br><br><br><br><br><br><br>dd.<br><br><br>e. | **Unrhyw Fater Arall / Any other business**<br>**Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf - Date and time of next meeting**<br>Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 8fed o Fai am 7.30yh yn Neuadd Bentref Drefach. *It was decided to hold the next meeting on the 8th of May at 7.30pm at Drefach Village Hall.*<br><br>Mae angen glanhau meinciau Grosgoch, fe wneith y Cyng Alwena Williams hyn a gofynodd bod pawb yn edrych ar gyflwr y meinciau yn eu ardaloedd. Dywedodd hefyd bod mwswg ar y pafin tu allan i dai Heol y Gros. Angen gofyn i'r Cyngor Sir ei lanhau. *The benches in Gorsgoch need cleaning, Cllr Alwena Williams will do these, she asked that everyone looks at the state of the benches in their area. She also noted that there is moss on the pavement outside the houses in Heol y Gors. Need to ask the County Council to clean it.*<br><br>Mae tyllau yn yr heolydd ar draws y plwyf, tyllau ofnadw rhwng Coedlannau a Llwynfallen. *There are potholes on the roads across the Parish, there are large wholes between Coedlannau and Llwynfallen.*<br><br>Mae can mlynedd ers diwedd y rhyfel byd cyntaf ar Sul y Cofio yn mis Tachwedd, mi fydd angen cofio hyn, cwmpasu gyda gwasanaeth Sul y Cofio falle. Bydd angen trafod yn agosach at yr amser. *The Centenary of the end of the first world war will be held on remembrance Sunday in November, we will need to remember this and hold a ceremony. Need to discuss closer to the time.*<br><br>Mae plac cofio rhyfel byd cyntaf o Ysgol Llanwenog wedi mynd i'r archifdy yn Aberystwyth ond nid oes lle ganddynt iddo, mae'r archifdy yn mynd i gysylltyu gyda'r Clerc ynglyn a'r mater, ac fe drafodwn ymhellach maes o law. *A first world war remembrance plaque from Llanwenog School has gone to the archives in Aberystwyth, however there is no room for it there, the archives department will contact the Clerk regarding the matter, and it will be discussed in due course.*<br><br>22ain o Ebrill – Taith Gerdded Cyng Hazel Thomas, Parc Dinefwr 11.30yb / 22/4/18 – Sponsored Walk arranged by Cllr Hazel Thomas, Dinefwr Park 11.30am. | Clerc<br><br><br><br><br>PAWB |

| | | |
|---|---|---|
| | 14ain o Ebrill – Cyngerdd wedi ei drefnu gan Cyng Euros Davies yn Ysgol Dyffryn Cledlyn 7.30yh / *14/4/18 – Concert arranged by Cllr Euros Davies at Ysgol Dyffryn Cledlyn 7.30pm* | |

**Arwyddwyd…………………………….**

**Dyddiad………………………………**